Rheoliadau Cyffredinol i'r holl Fyfyrwyr

Rheoliad 13: 2024 Fersiwn 1.0
Mewn grym o: 9 Gorffennaf 2024

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

Dyddiad	Yn Disodli	Disgrifiad o'r Newid
03 Gorffennaf 2024	2019 Fersiwn 1.4	Mân newidiadau gan gynnwys teitlau swyddi
1 Chwefror 2021	2019 Fersiwn 1.3	Diddymu dirwyon disgyblu.
1 Ebrill 2020	Fersiwn 1.2	Diweddaru cyfeiriadau'r Ordinhad i'r Rheoliad ar gyfer Disgyblaeth Myfyrwyr.

Perchennog y Ddogfen	Cymeradwywyd Gan	Dyddiad y Cymeradwywyd	Amlder Adolygu
Uned Gwella Ansawdd.	Pwyllgor Rheoliadau'r Senedd ac Achosion Arbennig.	03 Gorffennaf 2024.	Bob tair blynedd.

Sylwer: Mewn amgylchiadau eithriadol, ac yn amodol ar gymeradwyaeth Cadeirydd Pwyllgor Rheoliadau ac Achosion Arbennig y Senedd, gall cyfrifoldebau a neilltuir i Ysgolion, Penaethiaid Ysgol, Swyddogion Ysgol neu Bwyllgorau Ysgol yn y Weithdrefn hon gael eu mabwysiadu gan y Coleg, Deon y Coleg, Swyddogion y Coleg neu Bwyllgorau'r Coleg, yn y drefn honno, fel y bo'n briodol.

Rheoliadau Cyffredinol i'r holl Fyfyrwyr

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

Rhagarweiniad

1. Mae'r myfyrwyr yn cytuno i gadw at y rheoliadau cyffredinol hyn pan fyddant yn cofrestru. Drwy gytuno i gadw at y rheoliadau hyn, mae'r myfyrwyr hefyd yn cytuno i gadw at holl reolau a rheoliadau eraill y Brifysgol gan gynnwys :
    - Rheoliadau gweithdrefnau a chodau academaidd y Brifysgol a'r cyrsiau.
    - Rheolau'r Ysgol lle maent yn astudio.
    - Rheoliadau a rheolau pob adran yn y Brifysgol, e.g. y Llyfrgell.
    - Rheolau'r Neuaddau Preswyl.

Disgyblu'r Myfyrwyr

2. Mae'r Brifysgol yn disgwyl i'r myfyrwyr gadw at y safonau ymddygiad a ddiffinnir yn y rheoliadau. Mi wnaiff y Brifysgol gymryd camau disgyblu os bydd unrhyw achos o dorri'r rheoliadau. Bydd myfyrwyr sy'n torri'r rheoliadau yn cael eu cyfeirio i'w hystyried o dan y Rheoliad ar gyfer Disgyblaeth Myfyrwyr (Rheoliad 21).
3. Bydd y Brifysgol yn rhoi gwybod i'r Heddlu am unrhyw honiad neu amheuaeth o weithgarwch troseddol.
4. Mae Swyddogion Disgyblu'n ymdrin â mân achosion o dorri rheolau. Caiff achosion mwy difrifol eu cyfeirio at y Bwrdd Disgyblu. Mae'r cosbau'n cynnwys cerydd, gwaharddiad o'r Brifysgol dros dro neu derfynu cofrestriad y myfyriwr.

Y Rheolau Cyffredinol

5. Rhaid i bob myfyriwr, pa un a ydynt ar dir y Brifysgol neu beidio:
    - Beidio ag ymddwyn mewn ffordd sy'n anghyfreithlon mewn unrhyw fodd neu'n anonest, yn niwsans neu'n aflonyddwch i neb arall (gan gynnwys myfyriwr arall neu fyfyrwyr eraill y Brifysgol neu unrhyw sefydliad arall, staff, contractwyr, ymwelwyr neu aelodau o'r cyhoedd.
    - Peidio ag ysgogi gweithgarwch troseddol neu dorri rheoliadau'r Brifysgol.
    - Ymddwyn mewn modd gweddus.
    - Ufuddhau i'r holl awdurdodau cyfreithlon.
    - Ymddwyn yn briodol yn gyhoeddus ac wrth gyfathrebu yn ei holl agweddau, gan gynnwys cyfathrebu electronig a'r cyfryngau cymdeithasol.
    - Peidio â dwyn anfri ar y Brifysgol (ym marn y Brifysgol) nac ymrwymo i unrhyw atebolrwydd ar ran y Brifysgol.
6. Rhaid i bob myfyriwr gario cerdyn adnabod y Brifysgol gyda nhw bob amser pan fyddant ar dir y Brifysgol. Rhaid i bob myfyriwr roi eu henw a chyflwyno eu cerdyn adnabod pan ofynnir iddynt wneud hynny gan aelod o'r staff academaidd, aelod o'r staff gweinyddol, y staff diogelwch, neu unrhyw un arall sydd mewn awdurdod. Rhaid

i fyfyrwyr beidio â chaniatáu i neb arall ddefnyddio eu cerdyn adnabod Prifysgol. Rhaid i fyfyrwyr beidio â llofnodi na chadarnhau presenoldeb ar ran neb arall na gofyn i neb arall gadarnhau presenoldeb ar eu rhan.

7. Caiff presenoldeb y myfyrwyr ei fonitro yn unol â gweithdrefnau'r Brifysgol ar gyfer rheoli monitro presenoldeb.
8. Rhoddir cyfeiriad e-bost Prifysgol i'r myfyrwyr a ofynnol iddynt edrych ar eu cyfrif e-bost Prifysgol fel y cytunwyd yn ystod cofrestru yn rheolaidd.
9. Mae'n ofynnol i fyfyrwyr sy'n dilyn cyrsiau lle ceir lleoliad gyda sefydliad allanol gydymffurfio â rheolau a rheoliadau darparwr y lleoliad, ac â chodau ymddygiad unrhyw gorff proffesiynol perthnasol.
10. Peidied y myfyrwyr ag ymyrryd â'r canlynol:
    - Swyddogaethau academaidd neu weinyddol y Brifysgol. Mae'r swyddogaethau'n cynnwys arholiadau, seremonïau a chyfarfodydd, ac unrhyw hysbysiad a osodir ar hysbysfwrdd swyddogol ar ran y Brifysgol.
    - Pobl sy'n gweithio neu'n astudio yn y Brifysgol. Mae'r rhain yn cynnwys swyddogion, aelodau o'r staff, gweithwyr a myfyrwyr.
    - Eiddo'r Brifysgol Mae hyn yn cynnwys tynnu, difrodi, camddefnyddio neu ddifwyno eiddo.
11. Rhaid i'r myfyrwyr ufuddhau i gyfarwyddiadau gan staff y Brifysgol ac unrhyw awdurdod cyfreithlon i symud o adeiladau ac ardaloedd sydd o dan reolaeth y Brifysgol.
12. Mae ysmygu (gan gynnwys e-sigarennau) wedi ei wahardd yn holl adeiladau'r Brifysgol ac yn y cerbydau y mae'n eu llogi a'u prydlesu a'r rhai sy'n eiddo iddi. Ar dir y Brifysgol, mae ysmygu wedi ei wahardd hefyd o fewn pum medr i unrhyw adeilad, ac eithrio mannau ysmygu dynodedig y Brifysgol. Bernir bod anufuddhau i Bolisi Dim Ysmygu'r Brifysgol yn fater disgyblu. Gellid ystyried ysmygu mewn mannau sensitif neu risg uchel, megis labordai, storfeydd neu ger deunyddiau fflamadwy, yn gamymddwyn difrifol a gallai arwain at gamau disgyblu'n syth.
13. Mae adroddiadau'r Arholwyr Allanol yn gyfrinachol ac ni ddylid rhyddhau'r wybodaeth sydd ynddynt y tu allan i'r Brifysgol heb gytundeb ysgrifenedigan yr Uned Gwella Ansawdd. Bydd unrhyw fyfyriwr sy'n torri cyfrinachedd adroddiadau Arholwr Allanol yn agored i weithdrefnau disgyblu'r Brifysgol.
14. Rhaid i'r holl fyfyrwyr sy'n cael euogfarn berthnasol (fel y diffinnir ym mharagraff 644) tra byddant yn gofrestredig ddatgan hynny'n ysgrifenedig i'r diogelu@bangor.ac.uk o fewn 14 diwrnod. Rhaid i fyfyrwyr hysbysu unrhyw aelod(au) o'r staff a ddynodwyd ar gyfer eu cwrs penodol. Gofynnwn i fyfyrwyr sy'n destun ymchwiliad troseddol neu allanol arall ddatgan hyn i diogelu@bangor.ac.uk yn ddi-oed fel y gellir rhoi mesurau cymorth a diogelu a waith.

Derbyn

15. Pennir y meini prawf derbyn gan reoliadau a chodau ymarfer y Brifysgol, ac yn benodol gan y Polisi a'r Cod Ymarfer sy'n ymwneud â Recriwtio a Derbyn Myfyrwyr (Polisi Derbyn) a chan ofynion cyrsiau penodol.
16. Fel rheol rhaid gwneud ceisiadau am gyrsiau gradd israddedig, graddau sylfaen a Diplomâu Cenedlaethol Uwch trwy UCAS. Rhaid gwneud ceisiadau am bob cwrs arall trwy Swyddfa Derbyniadau'r Brifysgol neu drwy sefydliadau partner.

17. Awdurdodir Cadeirydd Pwyllgor Rheoliadau ac Achosion Arbennig y Senedd i gymryd camau gweithredu mewn unrhyw achosion arbennig a gyfeirir ato/ati gan y Swyddfa Derbyniadau. Mewn achosion eithriadol, gellir cyfeirio achosion i'r Pwyllgor eu hystyried.

18. Gellir canslo ceisiadau os yw'r cais yn cynnwys gwybodaeth anghywir neu os nad yw'r ymgeisydd wedi datgan euogfarnau perthnasol (fel y'i diffinnir ym mharagraff 64). Gellir diddymu cynigion i astudio yn y Brifysgol hefyd os oedd y cais yn anghywir neu os hysbysir y Brifysgol o unrhyw wybodaeth berthnasol arall.

Ymrestru a Chofrestru

19. Dyma'r broses lle mae myfyriwr yn ymrestru'n ffurfiol ar gyfer cymhwyster penodol yn y Brifysgol. Mae myfyrwyr sydd wedi'u cofrestru yn ddarostyngedig i Reolau a Rheoliadau'r Brifysgol drwy gydol y cyfnod cofrestru. Ar ddechrau'r rhaglen astudio, bydd myfyrwyr sydd wedi ymrestru yn dod yn fyfyrwyr 'cofrestredig' ar gyfer y sesiwn academaidd gyfredol. Rhaid i fyfyrwyr ail-gofrestru ar gyfer pob blwyddyn academaidd o'u hastudiaethau.

20. Mae'n ofynnol i fyfyrwyr ymrestru a chofrestru ar y dyddiadau a nodir gan y Brifysgol neu gan sefydliad partner. Rhaid i fyfyrwyr wneud y canlynol:

    - Cytuno i gydymffurfio â rheoliadau, gweithdrefnau a chodau'r Brifysgol (Gweler Paragraff1).
    - Cadarnhau eu bod yn gallu cyflawni'r ymrwymiadau ariannol sydd ganddynt i'r Brifysgol.
    - Cadarnhau, ar gais y Brifysgol eu bod yn iach i astudio ac/neu eu bod yn cyflawni unrhyw feini prawf meddygol a nodir ar gyfer y cwrs a ddewiswyd ganddynt.

21. Os na fydd myfyrwyr yn cofrestru ar y dyddiad(au) a bennir codir dirwy am gofrestru'n hwyr arnynt fel y'i diffinnir gan y Brifysgol bob blwyddyn. Rhaid i fyfyriwr sy'n methu â chofrestru anfon esboniad ysgrifenedig at y Pennaeth Gweinyddu Myfyrwyr. Gellir caniatáu i fyfyrwyr sy'n cyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig o amgylchiadau lliniarol gofrestru ar ddyddiadau gwahanol.

22. Ni chaniateir i fyfyrwyr gofrestru ar ôl pedair wythnos wedi diwrnod cyntaf y semester heb ganiatâd pennaeth yr ysgol sy'n eu derbyn a chymeradwyaeth y Dirprwy Is-ganghellor (Addysg a Phrofiad Myfyrwyr).

23. Rhaid i gwrs astudio pob myfyriwr (h.y. dewisiadau o ran modiwl) gael ei gymeradwyo gan yr ysgol sy'n ei dderbyn. Gall yr Ysgol sy'n derbyn gymeradwyo newidiadau i fodiwlau o fewn tair wythnos ar ôl dechrau Semester 1 ac o fewn pythefnos ar ôl dechrau Semester 2. Rhaid i Bennaeth Gweinyddiaeth Myfyrwyr neu enwebai gymeradwyo unrhyw newidiadau eraill.

24. Fel rheol ni chaniateir i fyfyriwr sydd mewn dyled i'r Brifysgol gofrestru. Awdurdodir y Pennaeth Derbyniadau i benderfynu a ganiateir cofrestru dros dro am gyfnod penodol.

Terfynu a Gohirio Astudiaethau

25. Gellir terfynu ymrestriad/cofrestriad y myfyriwr am unrhyw un o'r rhesymau canlynol:

    - Am beidio â dilyn y rhaglen academaidd (gan gynnwys presenoldeb a chwblhau gwaith). Ystyrir achosion o'r fath o dan y Weithdrefn Terfynu Astudiaethau.

- Torri rheoliadau'r Brifysgol. Caiff achosion o'r fath eu hystyried o dan y Rheoliad ar gyfer Disgyblu Myfyrwyr.
- Camymddwyn academaidd. Caiff achosion o'r fath eu hystyried o dan y Weithdrefn Uniondeb Academaidd.
- Ffioedd a thaliadau eraill sydd heb eu talu. Ystyrir achosion o'r fath o dan Bolisi Rheoli Dyled Myfyrwyr y Brifysgol.
- Peidio â chyflawni'r safonau academaidd a ddisgwylir mewn gwaith a arholir/a asesir. Ystyrir achosion o'r fath o dan y rheoliadau academaidd gan gynnwys y Rheoliadau ar gyfer Rhaglenni Hyfforddedig.
- Os yw presenoldeb myfyriwr yn parhau i fod yn anghyson â rheolau Fisa a Mewnfudo'r Deyrnas Unedig. Gweler Polisi Cynnydd Academaidd.
- Peidio â chydymffurfio ag unrhyw weithdrefnau gweinyddol gorfodol heb reswm da ac/neu hysbysiad ysgrifenedig o fewn cyfnod rhesymol.

26. Gellir terfynu astudiaethau myfyrwyr trwy weithdrefnau penodol a gymeradwyir fel rhan o broses gymeradwyo/ddilysu eu cwrs, gan gynnwys y Gweithdrefnau Addasrwydd i Ymarfer a'r amodau a osodir gan gyrff proffesiynol neu noddwyr.
27. Mi wnaiff y Brifysgol dderbyn tystiolaeth a ddarperir gan sefydliad lletyol os oes pryderon ynglŷn ag ymddygiad myfyriwr ar leoliad.
28. Mae hawl gan Bwyllgor Rheoliadau ac Achosion Arbennig y Senedd i ohirio neu derfynu astudiaethau unrhyw fyfyriwr ar sail iechyd.
29. Rhaid i fyfyrwyr sy'n dymuno gohirio neu derfynu eu hastudiaethau gysylltu â'r Ganolfan Gwasanaethau Myfyrwyr yn unol â Gweithdrefn 07 (Cymeradwyo Gohirio Astudiaethau). Rhaid iddynt hefyd hysbysu'r Ganolfan Gwasanaethau Myfyrwyr pan fyddant yn barod i ailafael yn eu hastudiaethau.

Rheolau Academaidd

30. Rhaid hysbysu'r Brifysgol os nad yw myfyriwr yn gallu dilyn y cwrs neu sefyll arholiadau oherwydd salwch neu anaf. Fel rheol bydd angen tystysgrifau meddygol.
31. Mae'n rhaid i bob myfyriwr sy'n sefyll arholiadau gadw at y rheolau sy'n ymwneud ag arholiadau'r Brifysgol. Rhaid i bob myfyriwr gyflwyno cerdyn adnabod y Brifysgol ym mhob arholiad os gofynnir iddynt wneud hynny gan aelod o staff y Brifysgol. Os na all y myfyriwr gyflwyno cerdyn adnabod y Brifysgol gellir gofyn iddynt adael yr arholiad.
32. Efallai bydd yn ofynnol i fyfyrwyr gyflwyno copïau electronig o asesiadau. Gellid rhoi'r asesiadau hynny trwy gronfa ddata a ddefnyddir i ganfod llên-ladrad. Disgrifir llên-ladrad yng Ngweithdrefn Uniondeb Academaidd y Brifysgol.

Rheolau Preswylio

33. Yn ystod y tymor rhaid i fyfyrwyr llawn amser:
    - Fyw o fewn pellter rhesymol i'r Brifysgol neu'r ganolfan addysgu ddynodedig a chydymffurfio ag unrhyw derfynau amser neu bellter mwyaf penodedig.
    - Cofrestru cyfeiriad yn ystod y tymor gyda'r Brifysgol.
    - Hysbysu'r Brifysgol o unrhyw newid yn eu cyfeiriad yn ystod y tymor neu eu cyfeiriad cartref.

34. Dylid ceisio caniatâd am absenoldeb o ddarlithoedd neu ddosbarthiadau gan Bennaeth yr Ysgol (neu enwebai), ac yn achos myfyriwr rhyngwladol ar fisa myfyrwyr hefyd o'r immigration@bangor.ac.uk.

35. Rhaid i fyfyrwyr ôl-radd llawn amser fod yn y Brifysgol, neu mewn lleoliad arall a gytunir trwy gydol y cyfnod cofrestru cyfan. Rhaid i drefnydd y cwrs neu oruchwylydd yr ymchwil gymeradwyo unrhyw gyfnodau i ffwrdd o'r Brifysgol, ar gyfer gwyliau neu astudio yn ysgrifenedig, a immigration@bangor.ac.uk yn achos myfyrwyr sydd ar fisa myfyrwyr Haen 4.

Talu Ffioedd a Thaliadau Eraill

36. Rhaid i bob myfyriwr dalu ffioedd y Brifysgol. Fel rheol, rhaid talu ffioedd cyn y cyfnod astudio ond gellir trefnu i dalu mewn rhandaliadau.

37. Os na thelir ffioedd, gall y Brifysgol, yn unol â'i Pholisi Rheoli Dyledion Myfyrwyr:

    - Wrthod caniatáu i'r myfyriwr gofrestru.
    - Terfynu cofrestriad y myfyriwr
    - Cymryd camau disgyblu.
    - Mynd â'r achos i'r llysoedd sifil.
    - Atal gradd, diploma neu gymhwyster arall y myfyriwr.

Iechyd a diogelwch

38. Disgwylir i fyfyrwyr ymddwyn yn gyfrifol a chymryd gofal rhesymol o'u hiechyd a'u diogelwch eu hunain, a diogelwch pobl eraill y gallai'r hyn a wnant neu'r hyn na wnant arnynt, gan gydymffurfio ag unrhyw reolau a gofynion a nodir ym Mholisi Iechyd a Diogelwch y Brifysgol a rhai eraill cysylltiedig, canllawiau iechyd a diogelwch, rheolau, polisïau a chyfarwyddiadau (llafar ac ysgrifenedig) a roddwyd iddynt fel rhan o'u hastudiaethau a gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'r Brifysgol. Os ydych chi'n astudio i ffwrdd o'r Brifysgol mae hyn yn cynnwys cadw at weithdrefnau iechyd a diogelwch y Darparwr Lleoliadau.

    Mae'n hanfodol bod myfyrwyr yn cymryd rhan mewn hyfforddiant iechyd a diogelwch yn ôl yr angen, ac yn cydweithio ag eraill ym mhob maes iechyd a diogelwch. Dylid rhoi gwybod i rywun priodol ar unwaith am bryderon, damweiniau a digwyddiadau. Gall gweithrediadau sy'n peryglu iechyd a diogelwch pobl eraill arwain at gymryd gamau disgyblu hefyd.

Cerbydau

39. Dim ond cerbydau â thrwydded barcio a gaiff barcio ar diroedd y Brifysgol. Fel rheol, bydd myfyrwyr sy'n byw mewn neuadd yn cael trwydded barcio ar gyfer y neuadd benodol honno. Caiff y myfyrwyr sy'n byw y tu allan i Fangor wneud cais am drwydded barcio ac fe roddir trwydded iddynt ar yr amod bod un ar gael.

40. Wrth yrru ar safleoedd y Brifysgol, mae'n rhaid i fyfyrwyr gadw at gyfyngiad cyflymder y safle dan sylw. Os na fyddant yn gwneud hynny gallent golli'r hawl i barcio.

41. Ni chaiff y myfyrwyr ddefnyddio eu cerbydau eu hunain i gludo cleifion, clientiaid na phlant ysgol yn ystod lleoliadau gwaith.

Defnyddio Adeiladau a Thir y Brifysgol

42. Gellir cynnal cyfarfodydd a digwyddiadau cymdeithasol yn adeiladau'r Brifysgol neu ar dir y Brifysgol gyda chaniatâd yr awdurdod priodol. Mae presenoldeb siaradwyr allanol mewn digwyddiadau o'r fath yn amodol ar God Ymarfer y Brifysgol ar Ryddid i Lefaru.

43. Caniateir yfed diodydd alcoholig mewn ardaloedd o'r Brifysgol heb drwydded gyda chaniatâd yr awdurdod priodol yn unig. Os yfir diodydd alcoholig mewn mannau trwyddedig yn y Brifysgol rhaid i hynny ddigwydd yn unol â thelerau'r drwydded.

44. Ni chaniateir i fyfyrwyr dod ag anifeiliaid domestig, ac eithrio cŵn cymorth, i adeiladau'r Brifysgol. Ar dir y Brifysgol, y tu allan i adeiladu'r Brifysgol, mae'n rhaid cadw anifeiliaid domestig ar dennyn ac mae'n rhaid i'r sawl sy'n gyfrifol amdanynt aros gyda nhw bob amser.

Rheoliadau Defnydd Derbyniol: Rheoliadau i ddefnyddio Adnoddau Technoleg Gwybodaeth

45. Rhaid i fyfywyr sy'n defnyddio gwasanaethau cyfrifiadura'r Brifysgol gadw at y Rheoliadau Defnydd Derbyniol. Mae copi o'r Rheoliadau Defnydd Derbyniol ar gael ar wefan Gwasanaethau Digidol.

46. Darperir gwasanaethau cyfrifiadura'r Brifysgol at ddibenion derbyniol, awdurdodedig yn unig. Mae'r Rheoliadau Defnydd Derbyniol yn nodi cyfrifoldebau'r defnyddwyr unigol. Mae'r Rheoliadau Defnydd Derbyniol yn cynnwys adrannau ar ddefnydd derbyniol, gwaharddiadau, amodau mynediad a phreifatrwydd data defnyddwyr. Mae'r Rheoliadau Defnydd Derbyniol yn annog pobl i ddefnyddio'r cyfleusterau'n gyfrifol, maent yn cynnig cymaint o adnoddau Gwasanaethau Digidol â phosib ac yn lleihau'r posibilrwydd o gamddefnyddio'r cyfleusterau y tu fewn neu'r tu allan i'r Brifysgol.

47. Rhaid i'r myfyrwyr beidio â defnyddio adnoddau cyfrifiadurol y Brifysgol mewn unrhyw ffordd sy'n dwyllodrus, yn dramgwyddus, yn anllad, yn hiliol, yn faleisus, yn ddifenwol, yn enllibus, yn sarhaus, yn bornograffig, yn rhywiol, yn anweddus, yn drosedd (nac yn uniongyrchol nac yn anuniongyrchol), yn hyrwyddo eithafiaeth/terfysgaeth ac/neu a allai fod yn gyfystyr â meithrin perthynas amhriodol â phlentyn a throseddau eraill yn erbyn plant dan oed. Gwaherddir defnyddio Adnoddau TG i achosi aflonyddwch, bwlio, anhwylustod neu annifyrwch i rywun arall neu sy'n debygol o wneud hynny neu sy'n torri cyfrinachedd.

48. Oni chydymffurfiwch chi â'r Rheoliadau Defnydd Derbyniol gellid cymryd camau o dan weithdrefnau disgyblu'r Brifysgol, tynnu hawliau'n ôl neu atal mynediad at adnoddau Gwasanaethau Digidol.

Hawliau Eiddo Deallusol y Myfyrwyr

49. Yr egwyddor gyffredinol yw mai'r myfyriwr sydd piau'r Hawliau Eiddo Deallusol a grëir gan y myfyrwyr yn ystod eu hastudiaethau. O dan rai amgylchiadau y Brifysgol fydd piau'r Eiddo Deallusol yng ngwaith y myfyriwr ac efallai y bydd y Brifysgol am i'r myfyriwr neilltuo eu Heiddo Deallusol i'r Brifysgol (neu i drydydd parti). Mae rhagor o wybodaeth ar gael ym Mholisi Eiddo Deallusol y Brifysgol.

50. Dylai myfyriwr sy'n dyfeisio rhywbeth neu'n gwneud darganfyddiad neu'n cyfrannu at hynny ddod â hynny i sylw'r goruchwylydd yn syth a fydd yn ei drafod gyda'r Gwasanaeth Cymorth Integredig Ymchwil Ac Effaith (IRIS). Dylai'r myfyriwr gadw

unrhyw ddarganfyddiad neu ddyfais yn gyfrinachol nes bydd wedi ei drafod gyda'r Brifysgol.

Rheolau a Rheoliadau'r Llyfrgell

51. Mae hawl gan bob myfyriwr cofrestredig i ddefnyddio'r Llyfrgell. Rhaid i fyfyrwyr gadw eu cerdyn llyfrgell yn ddiogel bob amser. Rhaid i fyfyrwyr beidio â benthyca eu cerdyn llyfrgell i neb arall.
52. Rhaid i fyfyrwyr gadw at reolau, rheoliadau a hawliau benthyca; y polisïau defnydd derbyniol a chanllawiau eraill y Llyfrgell. Mae manylion y rheiny ar wefan y llyfrgell. Dylai'r holl fyfyrwyr eu darllen.
53. Nid yw diffyg gwybodaeth neu ddealltwriaeth o unrhyw reol neu reoliad yn esgusodi defnyddiwr rhag y cosbau sydd am beidio â chydymffurfio.

Diogelu Data

54. Pwrpas y deddfau diogelu data yw diogelu hawliau sylfaenol a rhyddid pobl naturiol, yn enwedig eu hawl i ddiogelwch eu data personol. Eu nod yw gwella diogelwch y defnyddwyr a lefelau preifatrwydd cyffredinol unigolion.

    Deddf Diogelu Data 2018 yw'r ddeddfwriaeth gyfredol o ran Diogelu Data.

55. Mae gan fyfyrwyr hawl i ofyn am gael gweld eu data personol a gedwir gan y Brifysgol. Cewch ragor o fanylion am sut i wneud cais trwy e-bostio info-compliance@bangor.ac.uk neu ar dudalennau gwe diogelu data'r Brifysgol.

Rhyddid Gwybodaeth

56. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn rhoi i unigolion a chwmnïau o unrhyw le yn y byd yr hawl i wneud cais ysgrifenedig (gan gynnwys trwy e-bost neu ffacs) am wybodaeth nad yw'n bersonol oddi wrth awdurdodau cyhoeddus gan gynnwys y Brifysgol.
57. Gyda rhai eithriadau, os yw rhywun yn gwneud cais i'r Brifysgol am wybodaeth, rhaid rhoi gwybod iddo/iddi o fewn 20 diwrnod p'run a yw'r wybodaeth honno gan y Brifysgol ai peidio ac, os ydyw, rhaid darparu'r wybodaeth honno (gyda rhai eithriadau).
58. Cewch ragor o fanylion ar sut i wneud cais neu ar bolisi'r Brifysgol ar ryddid gwybodaeth trwy e-bostio info-compliance@bangor.ac.uk neu ar dudalennau gwe rhyddid gwybodaeth y Brifysgol.

Hawlfraint

59. Mae hawlfraint yn berthnasol i'r rhan fwyaf o weithgareddau academaidd y Brifysgol gan gynnwys pecynnau cwrs, dangos fideos, gwrando ar recordiadiau sain, papurau arholiad, taflenni tiwtorial ac ati. Mae Deddf Hawlfraint, Dylunio a Phatentau 1988 ynghyd â nifer o gynlluniau trwyddedu'n nodi fframwaith y mae'n rhaid i'r Brifysgol gadw ato.
60. Mae copïo gwaith y mae hawlfraint arno heb ganiatâd yn dor hawlfraint a gall arwain at gamau cyfreithiol neu achos troseddol a allai arwain at ddirwyon sylweddol (ac/neu garchar). Mae'r Asiantaethau Trwyddedu'n bodoli er mwyn erlyn mewn achosion o dor hawlfraint a byddech chi'n bersonol yn agored i gael eich erlyn yn ogystal â'r Brifysgol.

61. Mae manylion am yr hyn y gellir ei gopïo, heb dorri hawlfraint, ar gael gan y Gwasanaeth Llyfrgell ac Archifau.

Diffiniadau

62. **Ystyr myfyriwr**yw unrhyw unigolyn sy'n dilyn rhaglen astudio a gyflwynir gan y Brifysgol neu ar ran y Brifysgol. Mae rhaglenni astudio'n cynnwys cyrsiau sy'n arwain at gymwysterau a rhai nad ydynt yn arwain at gymwysterau.

63. **Y Brifysgol**yw Prifysgol Bangor, Rhif Elusen 1141565, Ffordd y Coleg, Bangor, Gwynedd LL57 2DG.

64. **Yr euogfarnau troseddol perthnasol** yw euogfarnau am droseddau yn erbyn yr unigolyn, boed yn dreisgar neu'n rhywiol, a throseddau sy'n ymwneud â chyflenwi cyffuriau neu sylweddau rheoledig yn anghyfreithlon, lle bo'r euogfarn yn ymwneud â gwerthu neu fasnachu cyffuriau. Ni fernir fod euogfarnau sydd wedi darfod (yn unol â diffiniad Deddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974) yn berthnasol, ac nid oes raid eu datgelu. Yn achos cyrsiau mewn addysgu, iechyd a gwaith cymdeithasol, neu gyrsiau sy'n cynnwys gwaith gyda phlant neu oedolion sy'n agored i niwed, mae unrhyw euogfarnau troseddol, rhybuddion (gan gynnwys rhybuddion llafar), ceryddon, rhybuddion terfynol a gorchmynion rhwymo wedi'u heithrio o Ddeddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974. Gofynnwn i fyfyrwyr sy'n destun ymchwiliad troseddol neu allanol arall ddatgan hyn i diogelu@bangor.ac.uk yn ddi-oed fel y gellir rhoi mesurau cymorth a diogelu a waith.

Atodiad 1

Cod Ymddygiad y Myfyrwyr

Mae'r Cod hwn, sef Cod Ymddygiad y Myfyrwyr, yn disgrifio'r disgwyliadau sydd o ran ymddygiad y myfyrwyr a'r gweithdrefnau y mae'r Brifysgol yn eu defnyddio pan nad yw ymddygiad y myfyrwyr yn dderbyniol. Mae'r Cod yn disgrifio'r hyn sy'n cael ei ystyried yn ymddygiad annerbyniol tuag at bobl eraill, at eiddo ac at y Brifysgol.

Mae'r Cod hwn yn diffinio'r mathau o ymddygiad annerbyniol a fydd yn gyfystyr â thorri'r Rheoliadau Cyffredinol. Bydd y Brifysgol yn trin unrhyw gamymddygiad annerbyniol fel mater difrifol. Bydd y Brifysgol yn defnyddio'r cod hwn wrth asesu difrifoldeb y gweithredoedd, ond bydd pob honiad yn cael ei ystyried fesul achos, gan gymryd i ystyriaeth y weithred, amgylchiadau'r weithred, ac a yw'r myfyriwr wedi torri'r rheoliadau mewn rhyw fodd arall. Mae amryw o ymddygiadau annerbyniol wedi eu rhestru fel enghreifftiau yn unig, a gall y Brifysgol ystyried mathau eraill o ymddygiad annerbyniol arall yn achosion o dorri'r Rheoliadau Cyffredinol hefyd.

Mae'r sancsiynau sydd yn y Cod hwn wedi'u cynnwys fel enghreifftiau, ac mae'r opsiynau sydd ar gael i'r Swyddogion Disgyblu a'r Bwrdd Disgyblu yn cael eu disgrifio'n fanwl yn y Rheoliad ar gyfer Disgyblu Myfyrwyr.

Dyma enghreifftiau o sancsiynau:

Diarddel,
Atal/Gwahardd,
Cyfyngiadau/Amodau (gan gynnwys rheidrwydd i wneud iawn am y difrod a achoswyd, os yw hynny'n berthnasol),
Rhybudd Ffurfiol,
Atal gradd, diploma neu gymhwyster arall y myfyriwr (os oes ffioedd academaidd heb eu talu).

Pobl

Trosedd Disgyblaethol	**Enghreifftiau o Ymddygiad Annerbyniol**
Camymddygiad Corfforol	• Pwnio [5] • Cicio [5] • Slapio [5] • Tynnu gwallt [5] • Cnoi [5] • Poeri [5]
Camymddygiad Rhywiol	• Cyfathrach rywiol neu gymryd rhan mewn gweithred rywiol heb ganiatâd [5] • Ceisio cymryd rhan mewn cyfathrach rywiol neu geisio cymryd rhan mewn gweithred rywiol heb ganiatâd [5] • Rhannu deunyddiau rhywiol preifat rhywun arall heb ganiatâd [5] • Cusanu rhywun heb ganiatâd [5] • Cyffwrdd rhywun yn amhriodol drwy'r dillad heb ganiatâd [5]

	• Dangos eich organau rhywiol yn amhriodol i rywun arall [5] • Dilyn rhywun arall yn ddi-baid heb reswm da [5] • Gwneud sylwadau digymell o natur rywiol [5]
Ymddygiad Camdriniol-1	• Bygwth brifo rhywun arall [5] • Sylwadau sarhaus sy'n ymwneud â rhyw'r unigolyn, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd neu gredo, hil, beichiogrwydd/mamolaeth, priodas/partneriaeth sifil, ailbennu rhywedd, anabledd neu oedran [5] • Gweithredu mewn ffordd fygythiol a gelyniaethus [5]
Ymddygiad Camdriniol-2	• Defnyddio iaith amhriodol [5] • Cysylltu â rhywun arall dro ar ôl tro (dros y ffôn, drwy e-bost, drwy neges destun neu ar safleoedd rhwydweithio cymdeithasol) yn groes i ddymuniadau'r person arall [5 a/neu 47]

Eiddo

Trosedd Disgyblaethol	**Enghreifftiau o Ymddygiad Annerbyniol**
Difrod i Eiddo	• Achosi difrod i eiddo'r Brifysgol neu eiddo myfyrwyr neu weithwyr y Brifysgol neu ymwelwyr â'r Brifysgol [5, 10]
Mynd ag eiddo neu'i ddefnyddio heb awdurdod	• Mynediad heb awdurdod i adeiladau'r Brifysgol neu eu defnyddio heb awdurdod [5] • Mynd ag eiddo rhywun arall heb ganiatâd [5]
Peri pryder ynghylch Iechyd neu Ddiogelwch	• Rhywbeth a wneir/na wneir a wnaeth achosi neu a allai fod wedi achosi niwed difrifol ar safle'r Brifysgol neu yn ystod gweithgareddau'r Brifysgol (er enghraifft, analluogi diffoddyddion tân neu feddu ar gyffuriau a reolir/cyflenwi cyffuriau a reolir) [38]

Y Brifysgol

Trosedd Disgyblaethol	**Enghreifftiau o Ymddygiad Annerbyniol**
Ennyn diddordeb myfyrwyr	• Ddim yn dod i bwyntiau cyswllt [7, 25] heb roi rhybudd dilys o amgylchiadau arbennig • Ddim yn gwirio ac/nac ymateb i e-bost oddi wrth y brifysgol [8]
Rhwystro Gweithredol	• Gweithredoedd/hepgoriadau/datganiadau y bwriedir iddynt dwyllo'r Brifysgol [5] • Tarfu ar weithgareddau'r Brifysgol (gan gynnwys rhai academaidd, gweinyddol, chwaraeon a chymdeithasol) ar safleoedd y Brifysgol neu mewn man arall [10] • Tarfu ar swyddogaethau, dyletswyddau neu weithgareddau unrhyw fyfyriwr neu gyflogai i'r Brifysgol

	neu unrhyw ymwelydd awdurdodedig â'r Brifysgol [10] • Ddim yn cario ID, defnyddio ID rhywun arall neu adael i rywun ddefnyddio ID [6] • Torri Rheolau'r Neuaddau Preswyl [1, 33, 35]
Niwed i Enw Da	• Ymddygiad sydd wedi peri niwed neu a allai fod wedi peri niwed i enw da'r Brifysgol [5] • Torri cyfrinachedd drwy ryddhau gwybodaeth o adroddiadau'r Arholwr Allanol [13]
Ffioedd	• Peidio â thalu ffioedd academaidd [36]
Rheolau Safleoedd	• Peidio â rhoi gwybod am euogfarnau perthnasol [14] • Gyrru: Peidio â chadw at derfynau cyflymder safleoedd [40] • Yfed alcohol mewn mannau didrwydded neu'r tu hwnt i delerau cytundeb [43] • Dod ag anifeiliaid i safle'r Brifysgol, heblaw am gŵn cymorth [44] • Peidio â chadw cyfrinachedd (heblaw am chwythu'r chwiban) • Peidio â hysbysu'r Brifysgol ynghylch dyfais neu ddarganfyddiad [50] • Peidio â chadw at reolau'r Llyfrgell [52] • Peidio â dilyn rheoliadau adnoddau TG [47] • Torri hawlfraint [60] • Ysmygu heblaw am fannau ysmygu dynodedig [12]

Nodiadau:

- Mae rhywun yn cydsynio os yw'n cytuno o ddewis a bod ganddo'r rhyddid a'r gallu i wneud y dewis hwnnw.
- Mae'r rhifau sydd mewn cromfachau sgwâr [] yn croesgyfeirio at y Rheoliadau Cyffredinol sydd ar gyfer pob Myfyriwr.
- Gall Cyfyngiadau/Amodau gynnwys dirwy.

Rhaid darllen y cod hwn ar y cyd â'r dogfennau eraill sy'n disgrifio ymddygiad disgwyliedig y myfyrwyr:

- Rheoliadau Cyffredinol ar gyfer pob Myfyriwr
- Rheoliad ar gyfer Disgyblu Myfyrwyr
- Trefn Uniondeb Academaidd
- Trefn Ffitrwydd i Astudio
- Rheolau Adran neu Ysgol (er enghraifft, Amodau Neuaddau Preswyl)
- Addasrwydd/Ffitrwydd i Ymarfer ar gyfer myfyrwyr sy'n arwain at achrediad proffesiynol (ar gael gan yr ysgolion academaidd)

Os nad yw'r myfyriwr yn cyflawni disgwyliadau'r Cod hwn, bydd yr honiadau'n cael eu hystyried yn achosion o dorri'r Rheoliadau Cyffredinol sy'n ymwneud â phob Myfyriwr ac ymchwilir iddynt dan y Rheoliad ar gyfer Disgyblu Myfyrwyr. Os yw'r myfyriwr ar raglen lle mae gweithdrefn addasrwydd/ffitrwydd i astudio, gellir ystyried honiadau dan y gweithdrefnau hynny yn hytrach na'r Rheoliad ar gyfer Disgyblu Myfyrwyr. Os bydd

ymddygiad myfyriwr yn achosi pryder mawr a/neu mae'n peri risg o niwed iddynt hwy eu hunain neu i eraill, ymchwilir i'r pryderon o dan y weithdrefn Addasrwydd i Astudio a/neu'r Rheoliad ar gyfer Disgyblu Myfyrwyr.

Cynghorir y myfyrwyr hynny sy'n destun ymchwiliad, neu sydd wedi codi pryderon, i geisio cymorth gan eu Tiwtor Personol, Uwch Diwtor, Gwasanaethau Cymorth y Myfyrwyr, neu Undeb y Myfyrwyr.
Os yw'r myfyriwr, neu'r person sy'n gweithredu ar ran y myfyriwr, yn credu bod digwyddiad yn dramgwydd troseddol, rhaid i'r myfyriwr ystyried yn ofalus, a oes trosedd wedi'i chyflawni ai peidio, a ph'un a ddylid rhoi gwybod i'r Heddlu am y digwyddiad a/neu'r Brifysgol. Cofied y myfyrwyr

- Os caiff digwyddiad ei gyflwyno gerbron yr Heddlu a'r Brifysgol, yna gall y Brifysgol ohirio ystyried y digwyddiad hyd nes bydd ymchwiliad yr Heddlu wedi'i gwblhau.
- Os rhoddir gwybod am ddigwyddiad i'r brifysgol, bydd y brifysgol yn ystyried yn unig a dorrwyd rheoliadau'r brifysgol a bydd ond yn pennu cosbau a ganiateir gan y Rheoliad ar gyfer Disgyblu Myfyrwyr.

Mae Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol dros Addysg Uwch (OIA) yn rhedeg cynllun annibynnol i adolygu cwynion myfyrwyr. Mae Prifysgol Bangor yn aelod o'r cynllun hwnnw. Os ydych yn anfodlon ar y canlyniad a gawsoch gan Brifysgol Bangor, efallai y gallwch ofyn i'r OIA adolygu'r achos. Cewch ragor o wybodaeth ynglŷn â gwneud cwyn i'r OIA, yr hyn y gall a'r hyn na all edrych arno a'r hyn y gall ei wneud i unioni pethau, yma: https://www.oiahe.org.uk/students.
Fel rheol rhaid i chi fod wedi cwblhau'r weithdrefn hon cyn i chi gwyno i'r OIA. Bydd Prifysgol Bangor yn anfon llythyr atoch o'r enw 'Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau' ar ôl ichi gyrraedd diwedd y prosesau hyn ac nid oes dim camau pellach y gallwch eu cymryd yn fewnol. Os na chaiff eich cwyn/apêl ei chadarnhau, bydd Prifysgol Bangor yn cyflwyno Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau yn awtomatig. Hyd yn oed os caiff eich cwyn/apêl ei chadarnhau neu ei chadarnhau'n rhannol cewch ofyn am Lythyr Cwblhau Gweithdrefnau gan Brifysgol Bangor os dymunwch. Cewch ragor o wybodaeth am Lythyrau Cwblhau Gweithdrefnau a phryd y gallech ddisgwyl derbyn un, yma: https://www.oiahe.org.uk/providers/completion-of-procedures-letters.
I ddod â chwyn gerbron yr OIA, mae angen i chi gyflwyno Ffurflen Gwyno'r OIA a honno wedi'i chwblhau cyn pen 12 mis wedi ddyddiad penderfyniad terfynol Prifysgol Bangor (sef dyddiad y Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau fel arfer), ac fel rheol bydd angen i chi anfon eich Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau at yr OIA.